**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Emyr George
Prif Weithredwr
Adnodd Cyfyngedig

Emyr.George@adnodd.llyw.cymru

16 Mawrth 2026

Annwyl Emyr,

**Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau Adnodd yng Nghymru: 2026–2027**

Yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd i Gyllideb Derfynol 2026-27, mae’n bleser gennyf ddarparu manylion eich trefniadau cyllid.

Cymeradwywyd cyllideb adnodd o £4,974,194 ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Caiff Adnodd wario hyd at y terfyn adnodd hwn yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw.

Nid oes gan Adnodd unrhyw gyllidebau nad ydynt yn arian parod na chyllidebau cyfalaf wedi'u dyrannu ar gyfer 2026-27. Bydd angen i Adnodd roi gwybod am unrhyw wariant a ragwelir ar gyfer 2026-27 nad yw'n ymwneud ag arian parod neu sy'n ymwneud â chyfalaf, a bydd angen ei reoli o fewn cyllideb bresennol Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg Llywodraeth Cymru. Bydd angen ystyried unrhyw ofynion nad ydynt yn ymwneud ag arian parod neu sy'n ymwneud â chyfalaf mewn perthynas â'r dyfodol fel rhan o gyllideb i'w phennu yn y dyfodol.

**Amodau a Thelerau’r Cyllid**

Mae’r llythyr cylch gwaith a’r ddogfen fframwaith a anfonwyd i Adnodd yn nodi’r amrywiol ofynion gweithredol, ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau’r llywodraeth y mae angen i Adnodd gydymffurfio â nhw, yn ychwanegol i’w ddyletswyddau a’i gyfrifoldebau ei hun fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru.

**Blaenoriaethau strategol Adnodd**

1. Datblygu gallu corfforaethol Adnodd
2. Sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol perthnasol, amserol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar yr un pryd, i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau
3. Rheoli fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer comisiynu, datblygu a chynhyrchu adnoddau diddorol o ansawdd uchel, sy'n briodol i ddatblygiad dysgwyr, gan sicrhau bod yr adnoddau yn unol ag ethos ac egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru a'u bod yn ateb y galw

4. Hybu'r gwaith o hyrwyddo adnoddau, codi ymwybyddiaeth ohonynt a'u defnyddio'n effeithiol
5. Datblygu a buddsoddi mewn sgiliau a'r gallu i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru

**Amcanion Corfforaethol**

Rwy'n disgwyl i Adnodd barhau i gyflawni ei genhadaeth greiddiol, fel y'i nodir yn ei Lythyr Cylch Gwaith ac fel y'i hadlewyrchir yn eich Strategaeth a'ch Cynllun Busnes sydd wedi'u cyhoeddi, sef arwain a chydlynu'r gwaith o ddarparu adnoddau addysgol o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg i gefnogi addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal â sicrhau gwasanaethau a llywodraethiant corfforaethol effeithiol.

**Deall anghenion y system**

Byddwch yn parhau i ystyried adnoddau a deunyddiau ategol ledled Cymru mewn ffordd holistaidd a strategol. Bydd hyn yn cynnwys nodi pa adnoddau perthnasol sydd eisoes ar gael, sut mae cael gafael arnynt, beth y gellir ei addasu neu ei ddiweddaru, a beth y mae angen ei gomisiynu i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth. Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth, dylai Adnodd barhau i adeiladu ei sylfaen dystiolaeth o anghenion defnyddwyr, adnoddau presennol a dulliau newydd drwy bartneriaeth â rhanddeiliaid addysg eraill.

Dechreuodd Dysgu, y corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth newydd yng Nghymru, weithredu yn 2025-26, ac mae'n parhau i ymgymryd â'i swyddogaethau fesul tipyn. Byddwch yn ymgysylltu â Dysgu er mwyn deall anghenion y sector, ac i sicrhau bod yr adnoddau a ddatblygwch a'r adnoddau dysgu proffesiynol a ddarperir gan Dysgu yn gwbl gydnaws â'r anghenion hyn. Byddwch yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu ar y cyd ag ysgolion a lleoliadau, a rhanddeiliaid ehangach, i sicrhau bod cynlluniau yn gyson â'i gilydd, heb ychwanegu at y baich sydd ar ysgolion. Byddwch hefyd yn ymgysylltu â sefydliadau a ariennir drwy raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru (yn ôl yr angen) i sicrhau bod yr adnoddau a ddatblygir fel rhan o'r cymorth hwnnw yn ateb y galw.

**Meysydd Blaenoriaeth**

Gan gydnabod y potensial ar gyfer anghenion gwahanol, yn dibynnu ar natur a chyfrwng iaith ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr ledled Cymru, rwy'n disgwyl i'r ffocws barhau ar y meysydd canlynol:

***Llythrennedd***

- gan adeiladu ar eich gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'ch ymchwil i anghenion y system yn 2025-26, byddwch yn lansio proses gomisiynu newydd ar gyfer adnoddau llythrennedd, a allai gynnwys deunyddiau sydd:
    - yn helpu ymarferwyr a dysgwyr i ddeall a chymhwyso blociau adeiladu sylfaenol llythrennedd
    - yn cefnogi datblygiad llythrennedd ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad fel sgil drawsgwricwlaidd

  - yn cefnogi darllen a llythrennedd yn y blynyddoedd cynnar fel cam hanfodol er mwyn gallu ymgysylltu â'r Cwricwlwm
- parhau i ariannu adnoddau i gefnogi'r arfer o ddarllen gyda babanod a phlant bach, a sicrhau parhad yn y ddarpariaeth tra byddwch yn datblygu a chomisiynu trefniadau newydd
- gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i barhau i ariannu'r gwaith o ddatblygu cynllun darllen Cymraeg dan arweiniad i gefnogi dysgwyr ag ADY rhwng 7 a 12 oed, ac i sicrhau bod yr adnoddau hyn ar gael i bob ysgol yng Nghymru
- gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i barhau i ddarparu teitlau newydd yn Gymraeg a Saesneg, llyfrau hawdd eu darllen.

***Rhifedd***

- cefnogi effaith tymor hirach y cynnig cymorth rhifedd cenedlaethol drwy helpu'r rhai sy'n cael cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu a chyhoeddi adnoddau dwyieithog hygyrch, ac arddangos enghreifftiau o sut y gellir eu defnyddio'n effeithiol

- cefnogi'r broses o gymhwyso rhifedd fel sgil drawsgwricwlaidd mewn ffordd effeithiol a gwerth chweil ar draws holl feysydd y cwricwlwm, drwy astudiaethau achos ac enghreifftiau ymarferol clir, gan gwmpasu pob cam cynnydd, ond gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth lefel uwchradd fel blaenoriaeth gychwynnol

- adnoddau i ddarparu manylion cyn cam cynnydd 1 ym Maes Mathemateg a Rhifedd. Yn sgil ymgysylltu â'r Fforwm Rhifedd ADY ac arbenigwyr y blynyddoedd cynnar, gwelwyd yr angen i gefnogi'r ddarpariaeth i ddysgwyr ADY, darparu gwybodaeth sylfaenol gref i bob dysgwr, ac ategu adnoddau Prifysgol Abertawe ar gyfer camau cynnydd 1-5.

***Cynllunio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu***

- gan adeiladu ar adborth ymarferwyr ac anghenion y system, comisiynu adnoddau hyblyg, ymarferol i'w defnyddio'n uniongyrchol wrth gynllunio cwricwlwm ar lefel ysgol a chynllunio ar lefel ystafell ddosbarth

- datblygu adnoddau ac enghreifftiau y gall ymarferwyr eu defnyddio wrth gymhwyso'r Sgiliau sy'n Hanfodol i'r Pedwar Diben yn eu gwaith o gynllunio cwricwlwm

- comisiynu enghreifftiau dwyieithog ac adnoddau cynllunio sy'n cefnogi cynlluniau rhyngddisgyblaethol ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad rhwng 3 ac 16 oed (lle nad yw'r rhain eisoes wedi'u nodi yn y llythyr hwn h.y. llythrennedd, rhifedd a'r dyniaethau)

***Anghenion Dysgu Ychwanegol***

- parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau Cymraeg i ddysgwyr ag ADY, gan gynnwys sut i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddigideiddio cod Braille Cymraeg ar y cyd â phrosiectau technoleg eraill

- parhau i gefnogi'r gwaith o addasu adnoddau'r Cwricwlwm i Gymru i fod yn hygyrch i ddysgwyr sy'n ddall neu'n rhannol ddall, gan gynnwys dysgwyr yn eu harddegau hŷn

- gweithio gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i gomisiynu'r broses o ehangu GOFAL – yr asesiad diagnostig o lythrennedd sydd newydd ei ddatblygu ar gyfer y Gymraeg – i gynnwys dysgwyr 7 i 11 oed a'r rhai 16 i 18 oed, ac i gomisiynu'r gwaith o ddatblygu platfform asesu digidol er mwyn gallu parhau i ddarparu a safoni'r asesiadau.

***Tegwch a lles***

- datblygu adnoddau dwyieithog newydd (gyda phecyn dysgu proffesiynol ar y cyd â Dysgu) i helpu ysgolion i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl a lles dysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sydd efallai wedi'u heffeithio'n negyddol gan hiliaeth, gwahaniaethu, a diffyg ymwybyddiaeth ddiwylliannol neu grefyddol

- cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau dwyieithog yn flynyddol ar gyfer Cymru, sy'n cyd-fynd â themâu wythnos wrth-fwlio, a'r Strategaeth Genedlaethol ar fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, a gweithio gyda swyddogion tegwch mewn addysg Llywodraeth Cymru fel rhan o'ch proses gomisiynu

- gan ategu deunyddiau presennol sy'n cefnogi dysg am hawliau plant, datblygu adnoddau sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o Hawliau Dynol.

***Y Dyniaethau***

- datblygu adnoddau priodol a heriol ar themâu amrywiaeth a lleiafrifoedd, enghreifftiau a phrosesau, ac adnoddau rhyngddisgyblaethol a fydd yn arwain at barhau i ymestyn a datblygu deunyddiau cwricwlaidd

- parhau i ariannu'r map rhyngweithiol i gefnogi dysgu am hanes cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol

- parhau i gomisiynu adnoddau priodol i ddatblygu ymhellach gynnwys Casgliad Hanes Cymru, gan adeiladu ar y ddarpariaeth yn 2025-26

- gweithio gyda Dysgu i ddatblygu a diweddaru adnoddau sy'n ategu dysgu proffesiynol ac sy'n cefnogi gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder ymarferwyr mewn perthynas â materion gwahanol, gan gynnwys bod yn ddiduedd, ymdrin â phynciau dadleuol a sensitif a chael sgyrsiau dewr.

***Gwyddoniaeth***

- parhau i ddarparu cefnogaeth i brosiect TANIO i gynnal y platfform gwyddoniaeth uwchradd dwyieithog ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ddatblygu cynlluniau ar gyfer darparu adnoddau gwyddoniaeth i'r dyfodol ar yr un pryd

***Tegwch o ran y Gymraeg***

- cynnal y capasiti i ymateb i'r angen parhaus am adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd lle mae diffyg nodedig, a lle mae deunyddiau Saesneg yn profi'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth a nodir uchod.

- cynllunio ar gyfer darparu adnoddau a fydd yn cefnogi'r broses o roi Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar waith, yn seiliedig ar anghenion ysgolion, er mwyn cyflawni eu nodau o ran dysgu Cymraeg, yn unol ag amserlen weithredu'r Ddeddf a chan gyfeirio at y Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg

- gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gomisiynu ymchwil i sicrhau eglurder a chysondeb ynghylch gofynion y gwahanol lefelau cyfeirio cyffredin i lywio prosesau a chanllawiau sicrhau ansawdd

- nodi'r adnoddau dysgu Cymraeg presennol y gellir eu halinio â lefelau cyfeirio cyffredin A1 ac A2 i'w defnyddio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg

- parhau i fapio, gwerthuso a hyrwyddo adnoddau i gefnogi dysgu Cymraeg ymhlith dysgwyr sy'n dilyn rhaglen trochi hwyr. Dylid canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau yn yr adnoddau i ddysgwyr uwchradd yn ogystal â sicrhau cysondeb â'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg.

- gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar barhau i ddatblygu darpariaeth ôl-16 ar gyfer Cymraeg galwedigaethol.

***Arloesi***

- yn unol â'ch blaenoriaethau strategol, rhan hanfodol o'ch model gweithredu yw galluogi ymarferwyr a chyflenwyr i greu a datblygu syniadau ar gyfer adnoddau. Gan adeiladu ar waith yn 2025-26, byddwch yn parhau i ariannu cyfleoedd ar gyfer prosiectau cydweithredol ac arloesol a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau a gallu i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru.

***Cymwysterau***

- gweithio gyda Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu a Dysgu i gytuno ar becyn o adnoddau a chymorth dwyieithog, a'i gomisiynu, er mwyn gallu cyflwyno Cymwysterau Cenedlaethol newydd yn llwyddiannus o fis Medi 2027

- gweithio gyda Cymwysterau Cymru a CBAC i gytuno ar adnoddau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cymwysterau Safon Uwch ac AS diwygiedig mewn Cymraeg a Chymraeg Craidd o fis Medi 2027 ymlaen, yn ogystal â chomisiynu'r adnoddau hynny

- parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru.

**Sicrhau Ansawdd**

Dylai'r gwaith a wnaed yn 2025-26 i ddatblygu a gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd barhau, er mwyn gofalu bod yr adnoddau a ddatblygir yn unol ag ethos ac egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru a'u bod yn ateb y galw. Bydd rheoli criw o adolygwyr, arbenigwyr ac ymarferwyr all helpu i adolygu a gwerthuso'r adnoddau

presennol o gymorth i lywio a chanolbwyntio cynlluniau comisiynu Adnodd fel rhan o'r gwaith parhaus hwnnw.

**Tîm Partneriaeth Adnodd**

Arweinydd eich tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru yw Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm ac Asesu, a'r Pennaeth Cyflawni Polisi yw eich pwynt cyswllt arferol o fewn y tîm o hyd.

Bydd tîm partneriaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ag Adnodd, fel y'i nodir yn eich Cytundeb Fframwaith, er mwyn goruchwylio a monitro'n briodol. Dylid hawlio cyllid gan ddefnyddio'r ddogfennaeth berthnasol a ddarperir gan y Tîm Partneriaeth.

**Materion ariannol**

Nodir y gyllideb adnodd a setliad y cymorth grant yn y tabl canlynol

| | **Cyfanswm net y gyllideb adnodd 2026–27 £** |
|---|---:|
| Alldro adnodd net: | |
| Refeniw (net) | 4,873,592 |
| Cyllid nad yw'n arian parod (dibrisiant) | 0 |
| Cyfalaf (net) | 0 |
| Gwariant Cyfalaf a Reolir yn Flynyddol | 0 |
| Cyllid grant (Refeniw) – Ton 2 Cymorth TGAU | 100,602 |
| **Cyfanswm y gyllideb adnodd** | **4,974,194** |
| | |
| Addasiadau Cymorth Grant: | |
| *Minws* Cyllid nad yw'n arian parod (dibrisiant) | 0 |
| Dyledwyr/Credydwyr | 0 |
| *Minws* Arian parod a gadwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol | 0[1] |
| | |
| **Cyfanswm yr Arian Parod - Cymorth Grant** | **4,873,592** |
| **Cyfanswm yr Arian Parod - Grant** | **100,602** |

Darperir cyllid grant ar wahân o £100,602 i Adnodd yn 2026-27 ar gyfer ton 2 y cymorth TGAU. Dylid hawlio'r cyllid hwn yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir mewn llythyr dyfarnu grant arall.

[1] Rhagwelir tua £0.85m ar 31 Mawrth 2026, ond mae hyn yn parhau i fod yn amodol ar gymeradwyaeth oherwydd y terfyn ar arian parod o 2%. Bydd y llythyr cyllid yn cael ei ddiweddaru yn ystod y flwyddyn unwaith y bydd y balans arian parod wedi'i gwblhau'n derfynol.

IFRS16: cyfrif am lesau yn y sector cyhoeddus o dan y Canllawiau Cyllidebu Cyfunol (CBG) a'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM)

Er nad yw Adnodd wedi mabwysiadu IFRS16, rhaid cyllidebu ar gyfer unrhyw weithgarwch sector cyhoeddus a rhaid adrodd arno'n gyson, sef o dan y CBG a'r FReM. Bydd hyn yn cynnwys addasu lesau ar gyfer IFRS16. Mae Trysorlys E hefyd wedi clustnodi'r gyllideb IFRS16 sydd ar gael tan 2025-26. Rhowch wybod i'ch tîm Partneriaeth am unrhyw newidiadau i drefniadau lesio gan y bydd hyn yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i reoli'r gyllideb IFRS16 sydd wedi'i chlustnodi.

Ffynonellau Incwm Eraill

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adrodd am bob ffynhonnell incwm arall ar gyfer pob corff sydd o fewn ffiniau'r llywodraeth ganolog a'u rheoli o fewn terfyn rheolaeth cwmpas incwm cyffredinol y cytunwyd arno gan Senedd Cymru. Nid y terfyn goddefiant ar gyfer arian parod a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn yw'r swm hwn. Rhowch wybod i'ch tîm Partneriaeth os ydych yn disgwyl y bydd yr incwm hwn yn newid yn ystod y flwyddyn ariannol.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education